Site Stakeholder Group

Summary of Key points from the Wylfa SSG Meeting 7 June 2018

1. The Chairman updated members on recent meetings he had attended and was due to attend e.g. BEIS consultation on the regulation of nuclear sites in the final stages of decommissioning to be held in Bangor on 14 June 2018. NDA National Stakeholder Summit event to be held at Berkeley College at which the Chair has been invited to speak.

2. Stuart Law, Wylfa Site Director presented the Site Director's Report drawing particular attention to the progress of defuelling (currently at 60%) and progress made with the asbestos removal project.

3. Bill Hamilton, Nuclear Decommissioning Authority gave an update of site activities on behalf of the NDA.

4. John McGough, Office for Nuclear Regulation (ONR) provided an update on ONR Inspections at Wylfa.

5. An update on recipients of the Magnox Socio-economic scheme was presented by Mair Jones.

6. It was agreed that a review of the Wylfa SSG Terms of Reference should incorporate the new NDA Guidelines.

7. It was proposed and agreed that the community councils of Rhosybol and Llaneilian should have two voting members each on the SSG, to reflect the composition of the North Anglesey Partnership.

8. It was proposed and agreed that from 2019 the Wylfa Site Stakeholder Group would meet twice a year rather than the current three times.

Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 7 June 2018, David Hughes Hall, Cemaes

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
Stuart Law	Site Director, Magnox Wylfa Site
Mair Jones	Magnox Socio Economic Lead
Michelle Humphreys	Magnox Communications
Bill Hamilton	Nuclear Decommissioning Authority
Cllr Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Enid Jones	Merched y Wawr
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Cllr Roger Dobson	Llanbadrig Community Council
Sue Scott	Anglesey WI
Selwyn Williams	Federation of Small Businesses
John McGough	ONR
Tom Conway	Wylfa Retirees Association
Mark Elsworth	Magnox
Tim Poole	Campaign for the Protection of Rural Wales
Cllr Gareth W Roberts	Amlwch Town Council
Manon Francis	IOACC
Gwen Thomas	IOACC
PS 1816 Emma Willams	North Wales Police
PCSO Nerys Williams	North Wales Police

Also:

Ann Llwyd	Translator – Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen

Apologies:

Jac Jones	Mechell Community Council
Paul Buckley	Magnox EHSS&Q Inspector
Cllr John Griffith	Talybolion Ward
Cllr Richard Griffiths	Twrcelyn Ward
Gary Leighton	North Wales Police
Caron Weaver	Magnox Asset Management and Improvement Director
Gwyn Hughes	Emergency Planning Officer
Peter Day	Federation of Small Businesses.
Julia Frost	Natural Resources Wales
Rona Arkle	Environment Agency
Cllr Richard Owain Jones	IOACC Twrcelyn Ward

Cllr Ken Hughes	IOACC Talybolion Ward
Cllr Llinos Medi Huws	IOACC Talybolion Ward
Cllr Gwilym O Jones	IOACC
Helen Grove-White	Resident
Mike Dodd	Resident

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting at 2pm. Apologies were noted as above.

2 Approval of Minutes of the Meeting held 1 February 2017

The minutes had been circulated prior to the meeting. Cllr Derek Owen proposed that the minutes were correct and was seconded by Cllr Roger Dobson. The minutes were received and accepted as a true record.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised.

4 SSG Chairman's Report

The Chair gave an overview of his activities since the last meeting and drew particular attention to a meeting held with the NDA. He noted that there was a commitment by the NDA Chairman to meet with the SSG Chair annually as well as during site visits. Reference was also made to the Holliday Report which will be finalised late Summer/early Autumn.

5 Wylfa Site Director's Report

Stuart Law presented his report. Copies of the report had been forwarded to SSG members and were also available at the meeting. In summary, he referred to:

- **Wylfa Site Operations – achieved** the 60% defuelled milestone in April and have made great strides in improving the rate of removal of fuel out of the reactors in the last 12 months. A Defuelling Improvement Plan is in place in response to the NDA Defuelling Review conducted in March. The plan is called: Mission 19 to reflect the aim to ensure defueling completion in 2019 and bring the Magnox Fuel Cycle to a successful conclusion. The key challenge is to increase the reliability of the flask-filling equipment so that the remaining 308 flasks can be shipped to Sellafield. A recruitment campaign has been instigated to employ an additional 17 people to support the Defuelling Programme. Forecast Defuelling end date has been revised to November 2019. As of 30 May, the reactors were 63% defuelled overall with 22,312 spent fuel elements remaining in Reactor 1 and 13,260 in Reactor 2. There are less than 300 spent fuel flask shipments to Sellafield remaining.

- **Asbestos Remediation -** the asbestos programme of work continues to make good progress. All asbestos containing material has been removed from the Reactor 1 and Reactor 2 Boiler Economiser Areas, Reactor 1 North pipe bridge and the Reactor 2 South pipe bridge. To date, the project has completed 68 consignments of Asbestos Waste from Site totalling 170,820 kgs. The regulatory issue held against the site has been closed following an ONR review of our asbestos arrangements and the significant progress made against those arrangements.

- **Waste Operations -** In March, Wylfa made its very first shipment of Very Low Level Waste/Low Level Waste (VLLW/LLW) to the Suez Clifton Marsh Landfill Facility in Preston. The consignment consisted of 72 drums (18m3) packed with soil, rubble, Waste Electrical and Electronic Equipment (WEEE) and metallic waste unsuitable for metal recycling.

- **Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)**

First Aid Events – two incidents were reported upon. One of an individual who had sustained bruises following a fall from a defuelling machine ladder and another individual

had sustained an injury to the knee using rope access equipment.

Finally Stuart Law shared the sad news of the death of a 28 year old staff member following a tragic accident at his home. The Chair requested that Stuart Law extended the SSG's condolences to the family.

Following Stuart Law's briefing members were shown a video entitled – Pioneering UK de-commissioning which gave a brief outline of de-commissioning activity across all the Magnox sites in the UK. It was noted that it would be beneficial to publicise this video locally.

Cllr Roger Dobson enquired what buildings would remain at Wylfa in the final phase. Stuart Law responded that the current Lifetime Plan states that the Reactor Equipment Buildings, Secondary Dry Store Cell buildings would remain subject to funding.

Stuart Law was thanked for his report.

6 Nuclear Decommissioning Authority Update

Bill Hamilton was welcomed to the meeting. The June NDA Update paper was shared with members. Bill Hamilton also noted the following:

- Reiterated the NDA's strong commitment to engage with the community via this forum and directly with the SSG Chair.
- Meeting to be arranged with Dr Holliday following receipt of his final report, hopefully late Summer.
- Examination of the PBO contract and it's termination is ongoing and currently awaiting the Secretary of State's approval, however, a transition team has been set-up with NDA, Magnox and independent representatives in order to ensure a smooth transition of the management model.
- NDA's Stakeholder Summit scheduled for 10-11 July in Berkeley. The Bradwell Closure Director will be providing an address and European delegates are expected to attend.
- NDA Property Ltd will focus on any property/assets no longer required and will work closely with all local interested parties.

Tom Conway raised a point that, in his opinion, the closure of Thorpe was a big mistake as fuel could be re-processed there to save having to mine for more. Bill Hamilton replied that this was a point well-made but there were also dis-benefits to keeping it open and the balance fell in favour of closing the plant.

Cllr Owen raised the issue of the disposal of Wylfa Sport and Social Club and Visitor Centre. He noted that the community in Tregele had registered an interest in taking responsibility for these amenities some 12 months ago, but have since been led to believe that they have been sold to Horizon. He wished to note that no formal response had been received by Tregele residents to date. **ACTION – Bill Hamilton agreed to take this issue to Jonathan Jenkin for further comment and response at the next SSG.**

Cllr GW Roberts enquired as to the cost of the mutual agreement to terminate the PBO contract. Bill Hamilton confirmed that there had been two out of court settlements amounting to £120m in total.

Bill Hamilton was thanked for his update.

7 Office for Nuclear Regulation Update

John McGough was welcomed to the meeting and provided a brief update on his report previously circulated to members. He drew particular attention to

- Recent site inspections held by the ONR which were all judged as 'green' i.e. no action required.
- Radsafe Demonstration exercise on Anglesey resulted in Magnox Ltd successfully demonstrating compliance with its arrangements for dealing with a Radsafe emergency.
- International Nuclear and radiological Event Scale (INES) – notification system for communicating safety information. INES scales ranges from 0 (no safety significance) to 7 (major accident). Magnox Ltd had reported a level 1 incident involving the incorrect fitting on a secondary seal on an irradiated fuel transport flask. Both John McGough and Stuart Law confirmed that the inner seal of the flask was in the correct orientation and that there was no leakage and no radioactive release. The ONR will undertake a follow-up review.

John McGough was thanked for his report.

8 Natural Resources Wales Update

There was no representative of NRW present however a written report, prepared by NRW, was distributed to all SSG members.

9 Wylfa Waste Management Update

Members were informed that there were no changes since the last meeting and that work continued onsite to process and remove waste.

10 Magnox socio-economic scheme Update

Mair Jones gave a short presentation on the achievements of the Magnox socio-economic scheme. It was noted that in 2017/18, over £739k was committed to helping 143 organisations across the 12 Magnox sites. Over £319k (43%) of this was in the surrounding communities of Wylfa site. Some of the groups that benefited from the Good Neighbour level funding were: Llanfair FC Under 15's – awarded £500; Ysgol Friars Outdoor Activity Club - awarded £560; Cylch Meithrin Amlwch – awarded £400;

Friends of Cemaes Library was awarded £5K in order that it can remain open for another 12 months. One of the larger, transformational applications recently supported is the £1.7m Capel Bethlehem Project in Cemaes who received an award of £150,000.

The 2018/19 funding portal is now open and applications can be made on-line at https://magnoxsocioeconomic.com It was also noted that the geographical area for applications is the whole of Anglesey.

Cllr GW Roberts wished to formally thank Magnox Ltd for administrating and delivering this valuable funding to support local projects and requested that details of all funding be made to the public.

11 Open Forum Question and Answer Session

There were no additional questions from the floor.

12 Any Other Business

NDA Guidelines/Constitution Review – it was agreed to adopt the proposed guidelines.

Gareth Winston Roberts proposed a motion to extend the SSG voting membership to include Rhosybol and Llaneilian Community Councils to reflect the composition of the six community councils representing the North Anglesey Partnership whose scope of work focusses on the Wylfa Newydd development. It was agreed that two Rhosybol and Llaneilian Community Council representatives would be given SSG voting rights.

It was also agreed that as from 2019, SSG meetings would reduce from three to two meetings per year.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 3.10pm

Next Meeting – Thursday 4 October 2018

Site Stakeholder Group

Crynodeb o Brif bwyntiau cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 7 Mehefin 2018

1. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i aelodau ynglŷn â chyfarfodydd diweddar y bu ynddynt a rhai y byddai'n mynd iddynt e.e. ymgynghoriad BEIS ar reoleiddio safleoedd niwclear yng nghamau olaf datgomisiynu a gynhelir ym Mangor ar 14 Mehefin 2018. Cynhelir digwyddiad Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yng Ngholeg Berkeley lle gwahoddwyd y Cadeirydd i siarad.

2. Cyflwynodd Stuart Law, Cyfarwyddwr Safle Wylfa Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle oedd yn tynnu sylw'n arbennig at y cynnydd a wnaed o ran tynnu tanwydd (60% ar hyn o bryd) a'r cynnydd a wnaed gyda'r prosiect gwaredu asbestos.

3. Rhoddodd Bill Hamilton, o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ddiweddariad ynglŷn â gweithgareddau safle ar ran yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

4. Rhoddodd John McGough, o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ddiweddariad ynglŷn ag archwiliadau'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn Wylfa.

5. Cyflwynodd Mair Jones ddiweddariad ynglŷn â'r rhai a oedd wedi derbyn cyllid o gynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox.

6. Cytunwyd y dylai adolygiad o Gylch gorchwyl GRhS Wylfa gynnwys Canllawiau newydd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

7. Fe gynigiwyd y dylai cynghorau cymuned Rhos-y-bol a Llaneilian gael dau aelod pleidleisio yr un yn y Grŵp Rhanddeiliaid Safle er mwyn adlewyrchu cyfansoddiad Partneriaeth Gogledd Ynys Môn.

8. Cynigiwyd a chytunwyd y byddai Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn hytrach na'r tair gwaith presennol o 2019.

Site Stakeholder Group

Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Mehefin 2018, Neuadd David Hughes, Cemaes

Yn bresennol:

Cynghorydd Aled M Jones	Ward Twrcelyn CSYM a Chadeirydd GRhS Wylfa
Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle, Safle Magnox Wylfa
Mair Jones	Arweinydd Economaidd Gymdeithasol Magnox
Michelle Humphreys	Magnox Communications
Bill Hamilton	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Cynghorydd Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Enid Jones	Merched y Wawr
Cynghorydd Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Cynghorydd Roger Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Sue Scott	Sefydliad y Merched Ynys Môn
Selwyn Williams	Ffederasiwn Busnesau Bach
John McGough	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Tom Conway	Cymdeithas Cyn Weithwyr Wylfa
Mark Elsworth	Magnox
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cynghorydd Gareth W Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Manon Francis	Cyngor Sir Ynys Môn
Gwen Thomas	Cyngor Sir Ynys Môn
PS 1816 Emma Willams	Heddlu Gogledd Cymru
PCSO Nerys Williams	Heddlu Gogledd Cymru

Hefyd yn Bresennol:

Ann Llwyd	Cyfieithydd – Cymen
Sydna Roberts	Cofnodion – Cymen

Ymddiheuriadau:

Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Paul Buckley	Archwiliwr EHSS&Q Magnox
Cynghorydd John Griffith	Ward Talybolion
Cynghorydd Richard Griffiths	Ward Twrcelyn
Gary Leighton	Heddlu Gogledd Cymru
Caron Weaver	Cyfarwyddwr Rheoli a Gwella Asedau Magnox
Gwyn Hughes	Swyddog Cynllunio Argyfwng
Peter Day	Ffederasiwn Busnesau Bach
Julia Frost	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rona Arkle	Asiantaeth yr Amgylchedd

Cynghorydd Richard Owain Jones	Ward Twrcelyn CSYM
Cynghorydd Ken Hughes	Ward Talybolion CSYM
Cynghorydd Llinos Medi Huws	Ward Talybolion CSYM
Cynghorydd Gwilym O Jones	CSYM
Helen Grove-White	Preswylydd lleol
Mike Dodd	Preswylydd lleol

1 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 2pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

2 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2017

Dosbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod. Cynigiodd y Cynghorydd Derek Owen fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Roger Dobson. Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod dilys.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw fater.

4 Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf a thynnodd sylw'n arbennig at gyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Nododd fod Cadeirydd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear wedi ymrwymo i gyfarfod Cadeirydd y GRhS yn flynyddol yn ogystal ag yn ystod ymweliadau safle. Cyfeiriwyd hefyd at Adroddiad Holliday a fydd yn cael ei gwblhau ddiwedd yr Haf/dechrau'r Hydref.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd Stuart Law ei adroddiad. Roedd copïau wedi'u hanfon ymlaen at aelodau'r GRhS ac roedd copïau hefyd ar gael yn y cyfarfod. I grynhoi, cyfeiriodd at:

- **Weithrediadau Safle Wylfa -** roedden ni wedi cyrraedd y garreg filltir o dynnu 60% o danwydd ym mis Ebrill ac rydyn ni wedi dod yn ein blaenau'n dda o ran ein cyfradd ar gyfer tynnu tanwydd allan o'r adweithyddion dros y 12 mis diwethaf. Mae Cynllun Gwella Tynnu Tanwydd ar waith i ymateb i Adolygiad Tynnu Tanwydd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Enw'r cynllun yw: Mission 19 i adlewyrchu'r nod i sicrhau ein bod yn gorffen tynnu tanwydd yn 2019 a dod â Chylch Tanwydd Magnox i gasgliad yn llwyddiannus. Y brif her fydd cynyddu dibynadwyedd yr offer llenwi fflasgiau er mwyn i ni allu anfon y 308 fflasg sydd ar ôl i Sellafield. Dechreuwyd ymgyrch recriwtio i gyflogi 17 o bobl ychwanegol i gefnogi'r Rhaglen Tynnu Tanwydd. Rydyn ni wedi adolygu'r dyddiad gorffen Tynnu Tanwydd roedden ni wedi'i ragweld i fis Tachwedd 2019. O 30 Mai, at ei gilydd roedd 63% o'r tanwydd wedi'i dynnu o'r adweithyddion gyda 22,312 o elfennau tanwydd wedi'u defnyddio ar ôl yn Adweithydd 1 a 13,260 yn Adweithydd 2. Mae llai mae 300 o fflasgiau tanwydd wedi'u defnyddio ar ôl i'w cludo i Sellafield.

- **Adfer Asbestos -** mae'r rhaglen waith asbestos yn dal i symud ymlaen yn dda. Mae'r holl ddeunydd sy'n cynnwys asbestos wedi cael ei dynnu o Ardaloedd Arbed Bwyleri Adweithydd 1 ac Adweithydd 2, pont pibell Gogledd Adweithydd 1 a phont pibell De Adweithydd 2. Hyd yma, mae'r prosiect wedi cwblhau 68 llwyth o Wastraff Asbestos o'r safle gan roi cyfanswm o 170,820 kg. Mae'r mater rheoleiddiol yn erbyn y safle wedi cael ei gau ar ôl adolygiad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear o'n trefniadau asbestos a'r cynnydd sylweddol a gafodd ei wneud yn erbyn y trefniadau hynny.

- **Gweithrediadau Gwastraff -** Ym mis Mawrth, am y tro cyntaf roedd Wylfa wedi cludo Gwastraff Lefel Isel Iawn/Gwastraff Lefel Isel Gweithgarwch Isel (VLLW/LALLW) i'r Cyfleuster Tirlenwi Suez Clifton Marsh yn Preston. Roedd hyn yn golygu cludo 72 drwm (18m3) yn llawn pridd, rwbel, WEEE a gwastraff metelig a oedd yn anaddas i'w ailgylchu.

- **Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd (EHSS&Q)**

Digwyddiadau Cymorth Cyntaf – adroddwyd ynghylch dau ddigwyddiad. Un am unigolyn oedd wedi cleisio ar ôl cael codwm oddi ar ysgol peiriant tynnu tanwydd ac unigolyn arall oedd wedi cael anaf i'w goes wrth ddefnyddio rhaff.

Yn olaf, rhannodd Stuart Law y newydd trist am farwolaeth aelod o staff 28 oed yn sgil damwain yn ei gartref. Gofynnodd y Cadeirydd i Stuart Law anfon cydymdeimlad y GRhS at y teulu.

Ar ôl y briffio gan Stuart Law dangoswyd fideo – Datgomisiynu arloesol yn y DU oedd yn rhoi amlinelliad byr o'r gwaith datgomisiynu sy'n digwydd ar draws safleoedd Magnox yn y DU. Nodwyd y byddai o fudd rhoi cyhoeddusrwydd yn lleol i'r fideo yma.

Holodd y Cynghorydd Roger Dobson pa adeiladau fyddai'n dal ar ôl yn Wylfa yn ystod y cam terfynol. Mewn ymateb dywedodd Stuart Law fod y Cynllun Oes Gyfan yn datgan y byddai Adeiladau'r Cyfarpar Adweithyddion, adeiladau Cell Storfa Sych yn dal ar ôl yn amodol ar gyllid.

Diolchwyd i Stuart Law am ei adroddiad.

6 Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd Bill Hamilton i'r cyfarfod. Rhannwyd papur diweddariad Mehefin yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear gyda'r aelodau. Hefyd nododd Bill Hamilton y canlynol:

- Ailadroddodd ymrwymiad cadarn yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i ymgysylltu â'r gymuned drwy'r fforwm yma ac yn uniongyrchol â Chadeirydd y GRhS.
- Cyfarfod i'w drefnu gyda Dr Holliday ar ôl derbyn ei adroddiad terfynol, ddiwedd yr Haf gobeithio.
- Mae'r gwaith o archwilio contract y sefydliad corff rhiant (PBO) a'i gwblhau'n dal i fynd ymlaen ac ar hyn o bryd rydym yn aros am sêl bendith yr Ysgrifennydd Gwladol, fodd bynnag, sefydlwyd tîm pontio gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Magnox a chynrychiolwyr annibynnol er mwyn sicrhau bod y model rheoli'n newid yn llwyddiannus.
- Cynhelir Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar 10-11 Gorffennaf yn Berkeley. Bydd Cyfarwyddwyr Cau Bradwell yn rhoi anerchiad ac mae disgwyl i gynrychiolwyr o Ewrop fod yn bresennol.
- Bydd NDA Niwclear Property Ltd yn canolbwyntio ar unrhyw eiddo/asedau nad oes eu hangen mwyach a bydd yn gweithio'n agos gyda phob partïon â diddordeb.

Codwyd pwynt gan Tom Conway, yn ei farn ef, roedd cau Thorpe yn gamgymeriad mawr oherwydd gellid ail-brosesu tanwydd yno oedd yn golygu na fyddai angen cloddio am fwy. Mewn ymateb, dywedodd Bill Hamilton fod hwn yn bwynt da ond bod anfanteision hefyd i'w gadw ar agor ac o ystyried y ddwy ochr eu bod o blaid cau'r safle.

Cododd y Cynghorydd Owen y mater o gael gwared ar Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Wylfa a'r Ganolfan Ymwelwyr. Dywedodd fod y gymuned yn Nhregele wedi dangos diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am yr amwynderau yma 12 mis yn ôl, ond eu bod ers hynny wedi'u harwain i gredu eu bod wedi'u gwerthu i Horizon. Roedd yn awyddus i nodi nad oedd trigolion

Tregele wedi derbyn unrhyw ymateb ffurfiol hyd yma. **GWEITHREDU – Cytunodd Bill Hamilton i gyflwyno'r mater yma i Jonathan Jenkin i gael sylwadau pellach ac ymateb yng nghyfarfod nesaf y GRhS.**

Holodd y Cynghorydd GW Roberts ynghylch cost y cydgytundeb i ddod â'r contract PBO i ben. Cadarnhaodd Bill Hamilton bod dau setliad wedi bod y tu allan i'r llys, yn dod i gyfanswm o £120m.

Diolchwyd i Bill Hamilton am ei ddiweddariad.

7 Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Croesawyd John McGough i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad byr ar ei adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol i aelodau. Tynnodd sylw'n arbennig at

- Archwiliadau safle diweddar a gynhaliwyd gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a fernid fel rhai 'gwyrdd' h.y. dim angen cymryd camau.
- Yn sgil ymarfer Dangos Radsafe Ynys Môn llwyddodd Magnox Ltd i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'i drefniadau ar gyfer drin ag argyfwng Radsafe.
- Mae 'International Nuclear and radiological Event Scale' (INES) yn system hysbysu ar gyfer cyfleu gwybodaeth am ddiogelwch. Mae graddfa INES yn mynd o 0 (dim pwysigrwydd diogelwch) i 7 (damwain ddifrifol). Roedd Magnox Ltd wedi hysbyddu ynghylch digwyddiad ar lefel 1 yn ymwneud â ffitio sêl eilaidd yn anghywir ar fflasg arbelydru cludiant tanwydd. Cadarnhaodd John McGough a Stuart Law fod sêl fewnol y fflasg wedi'i ffitio'n gywir ac nad oedd unrhyw ollyngiadau na deunydd ymbelydrol wedi dianc. Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn cynnal adolygiad dilynol.

Diolchwyd i John McGough am ei adroddiad.

8 Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Nid oedd cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru'n bresennol ond rhannwyd adroddiad ysgrifenedig, a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i holl aelodau'r GRhS.

9 Diweddariad gan Rheoli Gwastraff Wylfa

Dywedwyd wrth aelodau nad oedd unrhyw newidiadau ers y cyfarfod diwethaf a bod gwaith yn parhau ar y safle i brosesu a symud gwastraff.

10 Diweddariad ar Gynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox

Rhoddodd Mair Jones gyflwyniad byr ar yr hyn a gyflawnwyd gan gynllun economaidd gymdeithasol Magnox. Nodwyd yn 2017/18, fod dros £739k wedi'i ymrwymo i helpu 143 o sefydliadau ar draws y 12 safle Magnox. Roedd dros £319k (43%) o hyn yng nghymunedau cyfagos safle Wylfa. Dyma rai o'r grwpiau oedd wedi elwa ar gyllid Cymydog Da:
Clwb Pêl-droed Llanfair o dan 15 oed – dyfarnwyd £500; Clwb Gweithgareddau Awyr Agored Ysgol Friars – dyfarnwyd £560; Cylch Meithrin Amlwch – dyfarnwyd £400;

Dyfarnwyd £5K i Gyfeillion Llyfrgell Cemaes er mwyn gallu aros ar agor am 12 mis arall. Un o'r ceisiadau mawr, trawsnewid a gefnogwyd yn ddiweddar oedd Prosiect £1.7m Capel Bethlehem yng Nghemaes y dyfarnwyd £150,000 iddo.

Mae porth cyllid 2018/19 bellach yn agored a gellir gwneud ceisiadau ar-lein ar https://magnoxsocioeconomic.com Nodwyd hefyd fod Ynys Môn i gyd wedi'i gynnwys yn yr ardal ddaearyddol ar gyfer ceisiadau.

Diolchodd y Cynghorydd GW Roberts yn ffurfiol i Magnox Ltd am weinyddu a darparu'r cyllid

gwerthfawr yma i gefnogi prosiectau lleol a gwnaeth gais i fanylion yr holl gyllid gael eu gwneud yn gyhoeddus.

11 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau ychwanegol o'r llawr.

12 Unrhyw fater arall

Adolygiad Cyfansoddiad/Canllawiau yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

Fe gynigiodd Gareth Winston Roberts gais i ymestyn aelodaeth pleidleisio'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle i gynnwys Cynghorau Cymuned Rhos-y-bol a Llaneilian, er mwyn adlewyrchu cyfansoddiad y chwe chyngor cymuned sy'n cynrychioli Partneriaeth Gogledd Ynys Môn ac y mae cwmpas eu gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygiad Wylfa Newydd. Cytunwyd y byddai dau gynrychiolydd o Gynghorau Cymuned Rhos-y-bol a Llaneilian yn cael hawliau pleidleisio yn y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

Cytunwyd hefyd o 2019, y byddai cyfarfodydd y GRhS yn newid o dri i ddau gyfarfod y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 3.10pm

Cyfarfod Nesaf – dydd Iau 4 Hydref 2018